

## C5. Cynllunio newid

### Crynodeb o'r Uned

#### Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chynllunio sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau newid penodol neu er mwyn rhoi rhaglen o newid ar waith. Mae'n ymwneud â datblygu strategaeth i wneud y newid angenrheidiol, nodi rhwystrau, risgiau a'r angen i roi systemau monitro a chyfathrebu priodol ar waith.

#### Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf, rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

#### Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **C4. Arwain newid**, **C6. Rhoi newid ar waith**, **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb** a **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** yng nghyffres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

#### Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth gynllunio newid. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Cynllunio
- Dadansoddi
- Adeiladu tîm
- Trafod telerau
- Sicrhau adborth
- Dylanwadu
- Datrys problemau
- Monitro
- Rheoli risg
- Bod â chynlluniau wrth gefn
- Rheoli gwybodaeth
- Gwneud penderfyniadau

## **C5. Cynllunio newid**

### **Canlyniadau perfformiad effeithiol**

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi'r gweithdrefnau, y systemau, y strwythurau a'r rolau y mae angen eu newid, ac asesu'r bwlch rhwng y sefyllfa sydd ohoni a'r sefyllfa ofynnol yn y dyfodol.
2. Nodi ac asesu rhwystrau i newid.
3. Datblygu strategaethau a chynlluniau sy'n manylu ar y ffordd ymlaen.
4. Asesu'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r strategaethau a'r cynlluniau, a datblygu trefniadau wrth gefn.
5. Sicrhau bod eich cynlluniau'n cynnwys buddiannau tymor byr yn ogystal â phethau y gellir eu cyflawni yn y tymor hir.
6. Datblygu systemau ar gyfer monitro ac asesu cynnydd.
7. Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y broses newid sy'n caniatáu i bobl roi adborth.
8. Nodi anghenion hyfforddiant a chefnogaeth, a chynllunio sut i ddiwallu'r rhain.

### **Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol**

1. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
2. Byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur, yn gryno, yn fanwl-gywir ac mewn ffyrdd sy'n hybu dealltwriaeth.
3. Byddwch yn effro i risgiau posibl.
4. Byddwch yn rhoi cyfleoedd i bobl roi adborth a byddwch yn ymateb yn briodol.
5. Byddwch yn gosod amcanion ar gyfer eich hun ac eraill sy'n heriol ond yn gyraeddadwy.
6. Byddwch yn gweithio tuag at weledigaeth o'r dyfodol sydd wedi'i diffinio'n eglur.
7. Byddwch yn nodi goblygiadau neu ganlyniadau sefyllfa.

## **C5. Cynllunio newid**

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth**

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

#### **Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth**

1. Y prif fodelau a dulliau ar gyfer rheoli newid yn effeithiol, a'u cryfderau a'u gwendidau
2. Technegau cynllunio effeithiol
3. Theori y gromlin newid/perfformiad, a'i chymhwyso
4. Theori timau a dealltwriaeth o dimau, gan gynnwys dealltwriaeth o dechnegau adeiladu tîm a sut i'w cymhwyso
5. Sut i asesu'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â strategaethau a chynlluniau
6. Pwysigrwydd bod â chynlluniau wrth gefn a sut i wneud hyn yn effeithiol
7. Sut i wneud penderfyniadau tyngedfennol
8. Y rhwystrau gwleidyddol a biwrocraataidd i newid, a'r rhwystrau o ran adnoddau, a'r technegau ar gyfer delio â'r rhain
9. Disgwyliadau budd-ddeiliaid a sut maen nhw'n dylanwadu ar y broses

#### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector**

1. Sefyllfa gyfredol eich sefydliad yn y sector a'r farchnad y mae'n gweithio ynddi, o'i gymharu â'i brif gystadleuwyr, sy'n berthnasol i'r rhaglen newid
2. Yr amrediad ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i'r sector, a sectorau cysylltiedig, y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo
3. Datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol, yn rhai cyfredol ac yn rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector ac mewn sectorau cysylltiedig

#### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun**

1. Eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, y rhesymau dros newid, y risgiau a'r manteision disgwylidig
2. Gweithgareddau sy'n hanfodol i'r busnes a chyd-ddibyniaethau
3. Y ffactorau hynny (er enghraifft strategaeth, gweithdrefnau, polisiâu a strwythur) y mae angen eu newid, a'r blaenoriaethau a'r rhesymau cysylltiedig
4. Sianelau cyfathrebu eich sefydliad, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol